ABSENOLDEB OHERWYDD GWAELEDD

(Mae'r trefniadau hyn yn berthnasol i holl staff *CYNNAL*)

Diffinir hawl staff i absenoldebau oherwydd gwaeledd neu anaf yn y Llawlyfr Amodau Gwaith i staff NJC.

Mae'r hawl i absenoldeb ac i dâl gwaeledd yn seiliedig ar hyd eich gwasanaeth (heb gynnwys toriadau mewn gwasanaeth) :

Yn ystod y flwyddyn 1af o wasanaeth :	tâl llawn am fis, (ac ar ôl cwblhau 4 mis calendr o wasanaeth), hanner tâl am 2 fis.
Yn ystod yr 2il flwyddyn o wasanaeth :	tâl llawn am 2 fis, a hanner tâl am 2 fis.
Yn ystod y 3edd flwyddyn o wasanaeth :	tâl llawn am 3 mis, a hanner tâl am 3 mis.
Yn ystod y 4edd a'r 5ed blwyddyn :	tâl llawn am 5 mis, a hanner tâl am 5 mis.
Ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth :	tâl llawn am 6 mis, a hanner tâl am 6 mis.

HYSBYSU'R GWAITH EICH BOD YN ABSENNOL

Os ydych i ffwrdd o'ch gwaith oherwydd gwaledd neu anaf, dylech sicrhau bod eich rheolwr llinell yn cael gwybod am hynny cyn gynted ag y bo modd. Pe bae'r absenoldeb yn parhau a gyfnod hirach na'r disgwyliedig, dylech adael iddo/iddi wybod hynny. Gorau po gyntaf iddo/iddi gael gwybod, fel y gellir rhaglennu ac ail-drefnu eich rhestr gwaith.

COFNODI ABSENOLDEBAU

Am absenoldebau hyd at 4 diwrnod, gofynnir i chwi lenwi ffurflen fewnol yn nodi'r dyddiadau y buoch yn absennol.
Am absenoldebau rhwng 4 a 7 niwrnod, mae'n ofynnol i chi gwblhau ffurflen hunan-dystio swyddogol (copi ar gael o'r swyddfa).
Am absenoldebau mwy na 7 niwrnod, mae'n ofynnol i chi gael datganiad meddygol, wedi'i lofnodi gan feddyg. Bernir fod dydd Sadwrn a dydd Sul yn ddyddiau gwaith at y diben hwn.